



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: WG48410

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Rheoliadau Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru)

Ystyried rheoliadau drafft i'w gwneud yn orfodol defnyddio Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 29 Mawrth 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

## Trosolwg

Er mwyn ymdrin â phenderfynyddion ehangach iechyd, bu Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig ers amser i gynnwys iechyd ym mhob un o'i pholisïau. Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi annog ymdrechion i gynnwys y defnydd o Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ac wedi gwneud darpariaeth ar gyfer aseidiadau o'r fath yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i ymatebwyr ystyried rheoliadau drafft yn ei gwneud yn orfodol i gyrrff cyhoeddus penodol yng Nghymru ddefnyddio AEIau, gan anelu at y nod cyffredinol o leihau annhegwch iechyd i'r boblogaeth.

## Sut i ymateb

Dylech gyflwyno eich sylwadau erbyn 29 Mawrth 2024, mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- cwblhau ein ffurflen ar-lein
- lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen ymateb, a'i hanfon drwy e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriadau isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [AsesiadEffaithIechyd@llyw.cymru](mailto:AsesiadEffaithIechyd@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: [hyperlink](#)

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth fel rhan o'r ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan contract yr ymgymerydd â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gall fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddus hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost: [swyddogdiogeludata@llyw.cymru](mailto:swyddogdiogeludata@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd  
Gwybodaeth yw:

Wycliffe House  
Water Lane

Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF  
Ffôn: 0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Rhagair gan y Gweinidog

Fel llywodraeth, rydym yn anelu at greu cenedl y gall pob un ohonom fod yn falch ein bod yn perthyn iddi, a lle y gall pob un ohonom ffynnu. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru ac mae'n hanfodol ein bod yn creu'r amodau a'r cyfleoedd i bobl a chymunedau lwyddo, datblygu a ffynnu er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal.



Drwy saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sefydlwyd fframwaith ar gyfer dyfodol Cymru: Cymru sy'n gyfiawn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, a Chymru yr hoffem i'n plant a'n hwyron a'n hwyresau ei hetifeddu gennym.

Rydym yn gwybod y gall penderfynnyddion ehangach iechyd, gan gynnwys yr amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol rydym yn byw ac yn gweithio ynddynt, lywio canlyniadau iechyd, a hynny er gwell ac er gwaeth. Mae'r anghydraddoldebau sy'n deillio o'r amodau ehangach hyn yn aml yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth ac fel Llywodraeth Cymru, rydym yn ymrwymedig i weithredu i ymdrin â'r anghysondebau hyn i'n helpu i greu'r Gymru y carem ei gweld.

O dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mae dyletswydd statudol arnom i sicrhau ei bod yn orfodol cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd o dan rai amgylchiadau penodol. Yn hyn o beth, Cymru fydd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i roi sail statudol i Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Croesawaf y ddyletswydd hon yn fawr ac o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol, rwyf o'r farn ei bod yn gwbl ddilys asesu effeithiau iechyd posibl polisi, rhaglen neu brosiect ar boblogaeth, yn enwedig ar grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig, ni waeth beth a ddywed y gyfraith.

Nid arfer newydd yw'r arfer o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Sefydlwyd Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU), sy'n rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru, ers bron i ddau ddegawd bellach, a chaiff y cymorth y mae'r Uned wedi'i roi ledled y wlad ei gydnabod yn rhyngwladol, gan osod Cymru ar y blaen, unwaith eto, yn hyn o beth.

Ond ni allwn ddibynnu ar waith ardderchog yr Uned hon yn unig. Gwn fod llawer o gyrff cyhoeddus eisoes yn ystyried effaith eu gwaith ar iechyd y boblogaeth a wasanaethir ganddynt mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, ond mae'n bryd creu'r un amodau i bawb a sicrhau cysondeb o ran dulliau gweithredu er mwyn sicrhau'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl ar iechyd a lleihau'r effeithiau negyddol. Rhaid inni ddod ynghyd fel gyrff cyhoeddus i weithio tuag at ddyfodol gwell i boblogaeth Cymru. Mae'n bryd gwneud ymdrech benodol i sicrhau bod iechyd yn chwarae rhan flaenllaw yn ein ffordd o feddwl, gan greu polisiau a datblygu cymunedau sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd y genhedlaeth sydd ohoni a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae iechyd da wrth wraidd Cymru lewyrchus. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn ar Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru), ac edrychaf ymlaen at ddefnyddio'r rheoliadau hyn i ddatblygu Cymru decach, fwy cyfartal.

## **Y ddogfen hon**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) drafft ("y Rheoliadau drafft").

Mae'n cynnwys 4 adran.

### **Adran 1 – Cyflwyniad a Chefndir.**

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, esboniad o'r gwahaniaethau rhwng anghydraddoldeb iechyd ac annhegwch iechyd ac yn ystyried y sefyllfa bresennol yng Nghymru.

### **Adran 2 – Y Rheoliadau Drafft**

Mae'r adran hon yn darparu copi o'r Rheoliadau drafft i'w hystyried. Dyma fel y byddant yn ymddangos mewn deddfwriaeth.

### **Adran 3 – Ein rhesymeg**

Mae'r adran hon yn anelu at egluro rhai o'r syniadau sy'n sail i'r Rheoliadau drafft. Nodir cwestiynau'r ymgynghoriad ar ddiwedd pob adran er mwyn ysgogi ymateb.

Mae'n anelu at ymdrin â'r pwyntiau canlynol:

- Beth yr hoffem ei ystyried;
- I bwy mae'r rheoliadau yn gymwys;
- Pryd y bydd y rheoliadau yn gymwys;
- Sut y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd;
- Cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd;
- a rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### **Adran 4 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i chi gyflwyno eich sylwadau ar y Rheoliadau drafft. Gellir cyflwyno'r ffurflen hon ar ffurf electronig neu ei hargraffu a'i hanfon i'r cyfeiriad a nodir uchod.

## Adran 1 – Cyflwyniad a Chefndir

“Fairness does not mean everyone gets the same. Fairness means everyone gets what they need.” (Rick Riordan, 2010).


Gall y rhai hynny yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru ddisgwyl byw bywydau hirach ac iachach na'r rhai hynny yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. O gymharu â'r rhai hynny sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, mae tebygolrwydd llawer uwch y bydd pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn marw o achosion y gellid bod wedi'u hosgoi (3.7 gwaith yn uwch i ddynion a 3.8 gwaith yn uwch i fenywod) (SYG, 2019) ac mae ganddynt iechyd llawer gwaeth â disgwiliad oes iach is adeg geni (16.9 mlynedd yn is i ddynion ac 18.3 mlynedd yn is i fenywod) (SYG, 2021). Ynghyd â'r prif hanfod cyfiawnder cymdeithasol y dylid gweithredu i gau'r bylchau hyn, ceir dadl economaidd hefyd sy'n ategu'r angen i weithredu.

Nododd [adroddiad diweddar](#) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod tua £9 o bob £100 a gaiff ei wario mewn ysbytai yn deillio o anghydraddoldebau iechyd parhaus, sy'n cyfateb i ryw £322 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru. Canfu'r adroddiad fod cost flynyddol gyfartalog darparu gwasanaethau iechyd yn uwch ar y cyfan i'r rhai hynny sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Roedd y costau ar eu huchaf ymhlith oedolion o oedran gweithio ym mhob categori gwasanaeth ysbyty, ac eithrio derbyniadau cleifion mewnol dewisol. Mae'r rhesymau dros y bylchau hyn yn gymhleth a chânt eu hystyried mewn astudiaethau pellach er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae gwahaniaethau ac amddifadedd yn y boblogaeth yn dylanwadu ar y defnydd a wneir o wasanaethau iechyd yng Nghymru.

Er bod gan y gwasanaethau iechyd ran i'w chwarae wrth ymdrin â'r bwch hwn, mae angen i'r holl wasanaethau cyhoeddus weithredu i fynd i'r afael â'r cyfraniad a wneir gan benderfynyddion ehangach iechyd. Mae model enfys Dahlgren a Whitehead (gweler Ffigur 1 isod) yn disgrifio'r rhyngweithio cymhleth rhwng penderfynyddion iechyd. Mae'n gosod unigolion yn y canol, ac yn rhoi'r amrywiol haenau o ddylanwadau ar iechyd o'u cwmpas, fel ffactorau ffordd o fyw unigol, dylanwadau cymunedol, amodau byw a gweithio, ac amodau cymdeithasol mwy cyffredinol.


Cyfeirir at y ffactorau hyn gyda'i gilydd fel *penderfynyddion ehangach iechyd* a dyma'r amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y mae pobl yn byw ynddynt ac sy'n effeithio ar iechyd. Maent yn cynnwys incwm, addysg, mynediad at fannau gwyrdd a bwyd iach, y gwaith mae pobl yn ei wneud a'r cartrefi y maent yn byw ynddynt. Cydnabyddir yn eang, mai'r ffactorau hyn, at ei gilydd, yw'r prif ffactorau sy'n llywio iechyd pobl, a bod anghydraddoldebau o ran y ffactorau hyn yn un o achosion sylfaenol anghysondebau o ran canlyniadau iechyd. Felly, mae ymdrin â'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ehangach hyn yn hanfodol wrth leihau'r bwch hwn.

Ffigur 1 – Model enfys Dahlgren a Whitehead



## Anghydraddoldeb lechyd o gymharu ag Annhegwch lechyd

Ffigur 2 – Ilun o Anghydraddoldeb o gymharu ag Annhegwch lechyd



Mae mynediad cyfartal i ofal iechyd wedi bod yn nod ers cryn amser, ond yn fwy diweddar, rhoddwyd ffocws ar degwch. Er bod cydraddoldeb iechyd a thegwch iechyd ill dau yn anelu at gyflawni canlyniadau gwell a gwell mynediad i wasanaethau gofal iechyd, nid ydynt yr un fath. Yn gyffredinol, mae cydraddoldeb yn cyfeirio at gyfle cyfartal a'r un lefelau o gymorth i bob rhan o gymdeithas. Mae tegwch yn mynd gam ymhellach ac yn cyfeirio at gynnig amrywiol lefelau o gymorth gan ddibynnu ar yr angen i gyflawni canlyniadau tecach. Mae Annhegwch lechyd yn anghyfiawn ac i raddau helaeth, amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth yr unigolyn sy'n dylanwadu



arno. Nid yw'r amgylchiadau hyn yn digwydd ar hap na thrwy siawns, maent yn rhoi pobl o dan anfantais ac yn cyfyngu ar y cyfle i fyw bywydau hirach ac iachach.

Wrth ddyrannu adnoddau, mae dewis gennym: Trin pawb yr un fath (yn gyfartal) neu drin unigolion yn ôl eu hanghenion unigryw (yn deg).

Yn y tymor byr, gallai anelu at gydraddoldeb iechyd fod o fudd o ran gwella canlyniadau i gleifion sy'n wynebu achosion o wahaniaethu meddygol yn eu herbyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae anelu at degwch iechyd – gan ganolbwyntio'n uniongyrchol ar wreiddiau anghyfiawnder cymdeithasol a chyfeirio adnoddau ychwanegol at gleifion sy'n wynebu risg – yn sicrhau bod darparwyr a gwneuthurwyr polisi mewn sefyllfa well i benderfynu ble y dylid dyrannu adnoddau a sut i helpu poblogaethau nad ydynt o bosibl yn cael yr adnoddau y maent yn eu haeddu.

Mae lleihau'r bwlch tegwch iechyd yn her gymhleth, amlweddog ac amlhaenog a bydd angen dealltwriaeth wedi'i theilwra'n arbennig a chymau gweithredu cydlynol rhwng gwahanol sectorau er mwyn ymdrin â phenderfynyddion ehangach anghydraddoldebau iechyd. Er mwyn ymdrin â'r penderfynyddion ehangach hyn, bu Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig ers amser i gynnwys iechyd ym mhob un o'i pholisïau. Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi annog y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEIau) ers cryn amser.

## **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

Cafodd [Deddf Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\) 2017 \(y Ddeddf\)](#) Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn anelu at ymdrin â nifer o bryderon penodol ym maes iechyd y cyhoedd, ac at greu amodau cymdeithasol sy'n hybu iechyd da, a lle y gellir osgoi achosion o niwed y gellir eu hosgoi. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gordewdra, cynhyrchion tybaco a nicotin, triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis, tatŵio), tyllu mewn man preifat, asesiadau o'r effaith ar iechyd, gwasanaethau fferyllol a thoiledau at ddefnydd y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bwriedir i'r Ddeddf gyd-fynd â chyfres ehangach o gamau gweithredu i wella iechyd y cyhoedd (gan gynnwys camau gweithredu deddfwriaethol eraill, gwasanaethau, rhaglenni ac ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd).

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd (AEI) o dan amgylchiadau penodedig.

Diffinnir AEIau fel a ganlyn yn y Ddeddf:

*'...asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru.'*

Yn y Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf, nodir bod AEIau 'yn cynnig ffordd systematig o roi ystyriaeth i iechyd fel rhan o brosesau penderfynu a chynllunio. Mae'n adnodd y gellir ei ddefnyddio mewn unrhyw faes o weithgarwch sector cyhoeddus, sector preifat neu sector gwirfoddol – ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.'

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu mai'r bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r Rheoliadau yn gweithredu mewn ffordd gymesur gan nodi mai dim ond o dan yr amgylchiadau hynny lle byddai'r adnoddau y byddai eu hangen i ddatblygu'r asesiad yn arwain at fuddiannau iechyd a oedd yn gymesur â'r ymdrech a wnaed y byddai'n ofynnol cynnal AElau. Adeg ei gyflwyno, nododd y Memorandwm Esboniadol:

*'Y bwriad yw i'r asesiadau fod wedi'u cyfyngu i bolisiau, cynlluniau a rhaglenni y bydd arwyddocâd cenedlaethol neu sylweddol i'w canlyniadau neu a fydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd y cyhoedd ar lefel leol.'*

Wrth graffu ar y Bil, roedd yn amlwg o hyd bod rhai deddfwyr a rhai o'r unigolion a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor yn awyddus i osgoi sefyllfa lle y byddai cynnal AElau yn dod yn ymarfer 'ticio blychau' a'u bod, yn hytrach, yn awyddus i sicrhau mai dim ond o dan yr amgylchiadau hynny lle y byddent fwyaf buddiol y byddai AElau yn orfodol. Yn hyn o beth, credwn nad dim ond cynyddu nifer yr AElau a gaiff eu cynnal yw diben ei gwneud yn orfodol eu cynnal. Nod ei gwneud hi'n orfodol cynnal AElau yw pennu cyfres sylfaenol gyffredin o amgylchiadau lle y byddai'n ofynnol cynnal AEI er mwyn unioni'r sefyllfa bresennol lle mae nifer yr asesiadau yn anghyson ac yn amrywio rhwng cyrff cyhoeddus.

### **Beth yw'r sefyllfa bresennol?**

Ar hyn o bryd, dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig y mae'n orfodol cynnal AElau. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys gweithrediadau glo brig a meysydd cynllunio, a phroses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Er mai dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig y mae'n orfodol eu cynnal, mae gwaith ymgysylltu â chyrff cyhoeddus wedi dangos bod AElau (neu brosesau ar gyfer ystyried effeithiau iechyd penderfyniadau yn gyffredinol heb ddilyn methodoleg benodol) yn cael eu cynnal yn ehangach.

Yn ogystal ag ystyried effeithiau iechyd penderfyniadau, mae nifer o gyrff cyhoeddus wedi datblygu arferion ar gyfer cynnal amrywiaeth o asesiadau effaith gyda rhai ohonynt yn ystyried yr effeithiau yn erbyn blaenoriaethau polisi trawslywodraethol (fel y Gymraeg) ac eraill yn ystyried yr effeithiau ar gyfer grwpiau penodedig (fel hawliau plant).

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy saith nod llesiant cyfreithiol, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau mwy cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'n anelu at sicrhau y bydd gan genedlaethau'r dyfodol yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni nawr, o leiaf. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei

gwneud yn ofynnol i restr benodedig o gyrff cyhoeddus fabwysiadu amcanion llesiant wedi'u cynllunio i sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant, ac i gymryd pob cam rhesymol i arfer eu swyddogaethau i gyflawni'r amcanion hynny. Yn ogystal â chyflwyno'r nodau llesiant, cyflwynodd y Ddeddf hefyd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fabwysiadu'r 'pum ffordd o weithio'. Mewn ymateb i'r fframwaith deddfwriaethol a ddatblygwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, anogwyd cyrff cyhoeddus i weithredu mewn ffordd integredig wrth gynnal asesiadau effaith lle caiff effeithiau polisi neu raglen eu hystyried yn gyffredinol mewn perthynas â'u cyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant.

Mae gwaith ymgysylltu cynnar â chyrff cyhoeddus wedi dangos bod nifer mawr ohonynt yn ystyried effeithiau eu penderfyniadau gan ddefnyddio asesiadau effaith integredig. Mae'r asesiadau hyn yn ystyried egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn llywio prosesau effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth briodol. Gall yr asesiadau gynnwys ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; yn ogystal â'r effaith ar Fioamrywiaeth; Hawliau plant; Newid yn yr hinsawdd; Diwylliant; Diogelu data; Canlyniadau amgylcheddol; Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant, a hawliau dynol; Rheoliadau cynefinoedd; Iechyd; Cyfiawnder; Adnoddau naturiol; Asesiadau rheoliadol; Prawfesur gwledig; Asesiad amgylcheddol strategol; a'r Gymraeg.

Os cânt eu cynnal yn effeithiol, mae Asesiadau Effaith yn fwy na modd i ddangos cydymffurfiaeth yn unig. Maent yn cefnogi twf meddylfryd a diwylliant sy'n sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb wrth wraidd prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a datblygu polisiâu. Gan edrych yn benodol ar y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae [adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru](#) yn dangos bod enghreifftiau da o agweddau ar y broses o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn cyrff cyhoeddus unigol. Fodd bynnag, yn rhy aml, ymarfer blwch ticio yw'r asesiadau hyn, yn ôl pob tebyg, er mwyn dangos bod y corff wedi ystyried materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb rhag ofn y caiff ei herio.

Er bod her gyfreithiol, wrth reswm, yn risg bwysig i'w rheoli, ni allwn barhau i ystyried asesiadau effaith yn y fath fodd. Fel rhan o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, deallir bod iechyd yn gysyniad cadarnhaol sy'n cynnwys elfennau llesiant meddwl, llesiant corfforol a llesiant cymdeithasol a thrwy anwybyddu potensial llawn y dull gweithredu hwn, byddwn yn anwybyddu'r cyfle i wella iechyd a llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

## Adran 2 – Y Rheoliadau Drafft

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(c) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

202X Rhif (Cy. )

### IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 202X

#### NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd (AEI) gan gyrff cyhoeddus.

Mae AEI yn asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr a'r tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl holl bobl Cymru neu rai ohonynt.

Mae'r Ddeddf yn pennu pa gyrff cyhoeddus yr effeithir arnynt (adran 110).

Pan fo corff cyhoeddus wedi cynnal AEI, rhaid iddo ystyried yr asesiad wrth arfer y swyddogaethau hynny sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgymryd ag AEI (adran 109(1)).

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid i AEI gael ei gynnal gan gorff cyhoeddus pan fydd yn bwriadu cymryd cam neu wneud penderfyniad o natur strategol ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r broses y mae rhaid ei dilyn wrth gynnal AEI. Mae'n nodi pa wybodaeth y mae rhaid i AEI ei chynnwys a'r ffactorau y mae rhaid i gorff cyhoeddus eu hystyried.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru lunio canllawiau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gynnal AEI. Rhaid i'r canllawiau gynnwys darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau y mae AEI yn ofynnol ynddynt a'r ffordd y mae rhaid ei gynnal.

Mae rheoliad 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi'r AEI, gan gynnwys amseriad ei gyhoeddi a modd ei gyhoeddi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yng Nghymru. Gellir cael copi oddi wrth: XX, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

202X Rhif (Cy.)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Asesiadau'r Effaith ar Iechyd (Cymru)  
202X

Gwnaed \*\*\*

Yn dod i rym \*\*\*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 108(1), (3), (4), (5) a (6), 109(4) a 123(2)(c) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017<sup>(1)</sup>, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried personau cynrychiadol ac ymgynghori â hwy, yn unol ag adran 108(7) o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 123(2)(c) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru<sup>(2)</sup> ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesiadau'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 202X.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XX.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “asesiad o'r effaith ar iechyd” (“*health impact assessment*”) yw asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru;

ystyr “AEI” (“*HIA*”) yw asesiad o'r effaith ar iechyd;

ystyr “corff cyhoeddus” (“*public body*”) yw'r cyrff hynny sydd wedi eu rhestru yn adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

<sup>(1)</sup> 2017 dccc 2.

<sup>(2)</sup> Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

## Yr amgylchiadau y mae AEI yn ofynnol ynddynt

3.—(1) Rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI pan fydd yn bwriadu cymryd cam neu wneud penderfyniad o natur strategol.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr “cymryd cam neu wneud penderfyniad o natur strategol” yw cymryd cam neu wneud penderfyniad mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth sy'n effeithio ar y modd y mae corff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaeth neu amcan statudol neu, os nad oes ganddo swyddogaeth neu amcan statudol, naill ai cyfrifoldeb cyfreithiol, amcan cyfreithiol neu swyddogaeth gyfreithiol graidd.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw gam nac unrhyw benderfyniad ar faterion gweithredol neu weinyddol arferol.

## Sut i gynnal AEI

4.—(1) Rhaid i AEI sy'n ofynnol o dan reoliad 3 gael ei gynnal gan gorff cyhoeddus yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.

(2) Cyn gynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus ymgynghori ag—

- (a) unrhyw randdeiliaid y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol, a
- (b) unrhyw bersonau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rheini y mae'r cam neu'r penderfyniad arfaethedig y cyfeirir ato yn rheoliad 3 yn debygol o effeithio arnynt.

(3) Gan roi sylw i'r cam neu'r penderfyniad a fwriedir o dan reoliad 3, a diben yr AEI, rhaid i'r AEI—

- (a) bod yn ysgrifenedig ac wedi ei nodi mewn modd priodol,
- (b) cynnwys unrhyw wybodaeth am y materion a bennir ym mharagraff (4) ac unrhyw asesiad ohonynt, ac
- (c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r AEI yn yr holl amgylchiadau.

(4) Y materion a bennir at ddibenion paragraff (3)(b) yw—

- (a) enwi neu ddisgrifio unrhyw randdeiliaid neu unrhyw bersonau eraill yr ymgynghorwyd â hwy o dan reoliad 4(2),
- (b) enwi'r adrannau o boblogaeth Cymru, neu'r adrannau o rannau o boblogaeth Cymru, yr effeithir arnynt,
- (c) unrhyw ganlyniadau bwriadol ac anfwriadol,
- (d) unrhyw effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl,
- (e) maint yr effeithiau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (d),
- (f) sut i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn is-baragraff (d) neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol a nodwyd yn is-baragraff (c),
- (g) sut i gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol a nodwyd yn is-baragraff (d), ac
- (h) unrhyw faterion y mae corff cyhoeddus yn dymuno eu cynnwys yn yr AEI, gan roi sylw i'r materion a nodir ym mharagraffau (5) ac (8).

(5) (a) Os bodlonir yr amod ym mharagraff (7), wrth gynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw faterion sydd o fewn y cam neu'r penderfyniad arfaethedig sy'n destun yr AEI, neu sy'n rhan o'r cam neu'r penderfyniad arfaethedig hwnnw, yn ymwneud â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy.

(b) Os nodir unrhyw faterion y cyfeirir atynt ym mharagraff (5)(a), rhaid i'r corff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw un neu ragor o'r materion hynny yn berthnasol i'r AEI.

(6) O ran unrhyw gamau y mae'r corff cyhoeddus yn eu cymryd, neu unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud, ar ôl i AEI gael ei gynnal, nid yw paragraff (5) yn effeithio ar—

- (a) dyletswydd y corff cyhoeddus o dan adran 109(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, na
- (b) y ddyletswydd datblygu cynaliadwy, os bodlonir yr amod ym mharagraff (7).

(7) Mae'r corff cyhoeddus wedi ei restru yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(8) Wrth gynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw un neu ragor o'r materion canlynol yn berthnasol i'r AEI—

- (a) penderfynyddion ehangach iechyd, a
- (b) y ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd.

(9) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “dyletswydd datblygu cynaliadwy” yw dyletswydd y corff cyhoeddus i ymgymryd â datblygu cynaliadwy o fewn ystyr adrannau 2 i 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>(3)</sup>.
- (b) ystyr “penderfynyddion ehangach iechyd” yw'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a all effeithio ar iechyd pobl Cymru, neu ar iechyd rhai o bobl Cymru.
- (c) ystyr “ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd” yw unrhyw wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd rhwng adrannau gwahanol o boblogaeth Cymru, neu rhwng adrannau gwahanol o rannau o boblogaeth Cymru, sy'n debygol o gael eu hachosi gan wahaniaethau rhwng y grwpiau hynny ar sail—
  - (i) statws economaidd-gymdeithasol,
  - (ii) lleoliad daearyddol,
  - (iii) presenoldeb nodwedd warchoddedig, neu
  - (iv) unrhyw fater arall y mae corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn achosi gwahaniaeth mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd rhwng y grwpiau hynny y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol.

(10) At ddibenion paragraff (9)(c) ystyr “cyfleoedd iechyd” yw mynediad at gyfleoedd neu gyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd, y mae gan gorff cyhoeddus fuddiant ynddynt, sydd â diben neu effaith o hybu neu wella iechyd a llesiant.

(11) At ddibenion paragraff (10), nid yw “diben neu effaith o hybu neu wella iechyd a llesiant” yn ei gwneud yn ofynnol i hwn fod yn ddiben bwriadol.

### **Cymorth gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**5.—**(1) Rhaid i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrrff cyhoeddus cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gyda'r bwriad o gynorthwyo cyrrff cyhoeddus i gynnal AEI.

(2) Rhaid i'r canllawiau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

- (a) cynnwys darpariaeth mewn perthynas ag—
  - (i) yr amgylchiadau y mae AEI yn ofynnol ynddynt o dan y Rheoliadau hyn, a
  - (ii) y ffordd y mae rhaid cynnal AEI o dan y Rheoliadau hyn, a
- (b) cael eu diweddarau a'u hailgyhoeddi o bryd i'w gilydd fel y bo'n briodol.

### **Cyhoeddi AEI**

**6.—**(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus—

- (a) cyhoeddi'r AEI ar ei wefan, a
- (b) sicrhau ei fod yn parhau i fod ar gael ar y wefan cyhyd ag y bo'r cam neu'r penderfyniad yn parhau i fod yn berthnasol.

(2) Caiff corff cyhoeddus benderfynu ar y modd mwyaf priodol o gydymffurfio â pharagraff (1)(a) a'r ddyletswydd yn adran 109(1)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

(3) Os nad oes gan gorff cyhoeddus wefan, rhaid cyhoeddi AEI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn y modd y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn ei ddwyn i sylw personau y gall yr AEI effeithio arnynt.

---

<sup>(3)</sup> 2015 dccc 2.

Enw

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru  
Dyddiad

## Adran 3 – Ein rhesymeg

### Beth yr hoffem ei ystyried

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i ymatebwyr ystyried y Rheoliadau drafft sy'n ei gwneud yn orfodol i gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru ddefnyddio AElau. Mae copi o'r Rheoliadau drafft wedi'i gynnwys yn [Adran 2](#). Mae cwestiynau mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft i'w hystyried ym mhob rhan o'r ddogfen hon a cheir ffurflen ymateb sy'n cynnwys pob cwestiwn yn [Adran 4](#). Mae'r Rheoliadau drafft yn cefnogi camau gweithredu ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac i wella iechyd y boblogaeth yng Nghymru. Gwyddom fod llawer o gyrff cyhoeddus eisoes yn cynnal AElau o ryw fath ac felly mantais eu gwneud yn orfodol drwy reoliadau yw sicrhau cysondeb rhwng gyrff cyhoeddus, a cheisio manteisio i'r eithaf ar y buddiannau y gall cyflawni'r ddyletswydd hon eu creu.

Cwestiwn 1 – Yn seiliedig ar y darpariaethau a geir yn Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i ba raddau rydych yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn ymdrin â'r rhwymedigaeth i'w gwneud hi'n orfodol i'r gyrff cyhoeddus a restrir yng Nghymru ddefnyddio Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd?

### I bwy mae'r Rheoliadau drafft yn gymwys

Ar hyn o bryd, mae 48 o gyrff wedi'u rhestru o dan adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 y bydd y Rheoliadau drafft yn gymwys iddynt:

Mae adran 110 yn nodi bod yr holl bersonau canlynol yn "gorff cyhoeddus" at ddibenion adran 108 a 109:

a) Gweinidogion Cymru

b) awdurdod lleol

c) Bwrdd Iechyd Lleol

(sef Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

d) yr Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ganlyn –

i. Iechyd Cyhoeddus Cymru

ii. Felindre



e) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru

f) Awdurdod tân ac achub yng Nghymru

(sef awdurdod yng Nghymru sydd wedi'i greu gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo)

g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru

h) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

i) Cyngor Celfyddydau Cymru

j) Cyngor Chwaraeon Cymru

k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru

l) Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Ar y cyfan, mae'r rhestr o gyrff cyhoeddus o dan adran 110 yn cyd-fynd â'r rhai hynny a restrir o dan adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (ac eithrio cydbwyllgorau corfforedig). Mae'r cyrff a restrir o dan adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddarostyngedig i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ddyletswydd llesiant o dan y Ddeddf honno. Bydd y cyrff hyn hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, o 1 Ebrill 2024.

Mae adran 110(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, ymhlith diwygiadau eraill, i ychwanegu cyrff cyhoeddus y bydd y Rheoliadau drafft yn gymwys iddynt at y rhestr, ar yr amod "bod y person hwnnw yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus". Felly, mae cyfle i sicrhau bod y rhestr o gyrff cyhoeddus yn dal i adlewyrchu'r cyrff hynny yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **Ehangu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant**

Y llynedd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant fel y'u rhestrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys [ymgyngoriad](#) ar ehangu'r ddyletswydd llesiant i wyth corff cyhoeddus ychwanegol. Dewiswyd y cyrff hyn ar y sail bod eu cylch gwaith neu eu swyddogaethau yn cael effaith sylweddol ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a'r rhai hynny â swyddogaethau sy'n ymwneud â pholisi strategol a chynllunio corfforaethol. Yr wyth corff cyhoeddus yr ymgynghorir arnynt yw:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru

- Awdurdod Cyllid Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Cynigir y caiff y cyrff hyn eu hychwanegu at adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2024 ac y byddant wedi hynny yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Yn unol â hyn, mae'n bosibl y caiff y rhestr yn a110(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) hefyd ei diwygio maes o law a byddem yn croesawu sylwadau'r cyrff cyhoeddus ychwanegol hynny mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn 2 – Bydd yn ofynnol i'r cyrff a restrir o dan adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 lunio AElau yn unol â'r Rheoliadau drafft. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 adlewyrchu'r cyrff hynny a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol a gynnigir yn y dyfodol a gaiff eu hychwanegu at adran 6?

## **Pryd y bydd y Rheoliadau drafft yn gymwys**

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau drafft yn nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI pan fydd yn bwriadu cymryd cam neu wneud penderfyniad o natur strategol.

### **Yr hyn a ystyriwn yn gymryd cam neu'n wneud penderfyniad o natur strategol**

Mae cymryd cam neu wneud penderfyniad o natur strategol yn cyfeirio at y camau neu'r penderfyniadau hynny sy'n ymwneud ag arfer swyddogaeth sy'n effeithio ar y ffordd y mae corff cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau a'i amcanion statudol. Os na fydd gan gorff cyhoeddus swyddogaeth nac amcan statudol, mae'n cynnwys cyfrifoldeb cyfreithiol, amcan cyfreithiol neu swyddogaeth gyfreithiol graidd.

Bydd y Rheoliadau drafft yn gymwys i gamau neu benderfyniadau strategol newydd, a hefyd wrth adolygu camau neu benderfyniadau strategol blaenorol. Ni fydd y Rheoliadau drafft yn ôl-weithredol, sy'n golygu nad oes rhaid i gyrff cyhoeddus gynnal AEI ar gyfer camau neu benderfyniadau a wnaed cyn i'r Rheoliadau ddod i rym, oni fyddant yn cael eu hadolygu.

Er mwyn ei gwneud yn haws deall, rydym wedi cynnwys rhai enghreifftiau isod (nid yw'n rhestr gynhwysfawr) o rai camau neu benderfyniadau strategol y gall cyrff cyhoeddus eu cymryd neu eu gwneud:

✓ Cyfeiriad a bwriad strategol

- ✓ Cynllunio ariannol strategol
- ✓ Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- ✓ Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb Deddf Cydraddoldeb 2010, strategaeth Gymraeg)
- ✓ Newidiadau a datblygiadau i wasanaethau cyhoeddus
- ✓ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr
- ✓ Datblygu polisiâu strategol
- ✓ Strategaethau a gaiff eu datblygu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- ✓ Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cynnig deddfwriaeth (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth) i'r Senedd

### **Amgylchiadau sy'n eithrio cyrff rhag y ddyletswydd i gynnal AEI**

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi na fydd unrhyw gam na phenderfyniad sy'n gysylltiedig â materion gweithredol neu weinyddol cyffredin yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gynnal AEI. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys penderfyniadau cyffredin a wneir o ddydd i ddydd gan staff i roi'r strategaethau ar waith fel rhan o fusnes arferol.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â bwriad y polisi i'w gwneud yn orfodol i'r cyrff cyhoeddus a restrir ddefnyddio AEI pan fyddant yn cymryd cam neu'n gwneud penderfyniad o natur strategol?

Cwestiwn 4 – Oes unrhyw amgylchiadau ychwanegol lle y credwch y dylai fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal AEI gorfodol?

Cwestiwn 5 – Oes unrhyw amgylchiadau ychwanegol lle y credwch y dylai cyrff cyhoeddus gael eu heithrio rhag cydymffurfio â'r Rheoliadau drafft?

### **Sut y dylid cynnal AEI**

Rydym yn cydnabod nad yw dull rhy ragnodol ar gyfer cynnal AEI yn addas. Yn hytrach na phennu dull rhagnodol, bydd gan gyrff cyhoeddus rywfaint o ddisgresiwn o ran sut y byddant yn ystyried effeithiau iechyd yn yr amgylchiadau lle y bydd angen cynnal AEI. Credwn ei bod hi'n werth cynnig hyblygrwydd lle gall cyrff cyhoeddus ystyried

effeithiau iechyd fel rhan o'r broses ar gyfer cynnal asesiad effaith integredig (neu broses debyg). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau rhywfaint o gysondeb yn y dull gweithredu ledled Cymru, rydym wedi nodi'r gofynion sylfaenol y dylid eu cynnwys mewn AEI, yn ein barn ni, yn ogystal â ffactorau eraill y credwn y dylid eu hystyried os ydynt yn berthnasol i'r cam neu'r penderfyniad arfaethedig.

#### Rheoliad 4 – Sut i gynnal AEI

- (1) Rhaid i AEI sy'n ofynnol o dan reoliad 3 gael ei gynnal gan gorff cyhoeddus yn unol â darpariaethau'r rheoliad hwn.
- (2) Cyn cynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus ymgynghori ag—
  - (a) unrhyw randdeiliaid y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol, a
  - (b) unrhyw bersonau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rheini y mae'r cam neu'r penderfyniad arfaethedig y cyfeirir ato yn rheoliad 3 yn debygol o effeithio arnynt.
- (3) Gan roi sylw i'r cam neu'r penderfyniad a fwriedir o dan reoliad 3, a diben yr AEI, rhaid i'r AEI—
  - (a) bod yn ysgrifenedig ac wedi ei nodi mewn modd priodol,
  - (b) cynnwys unrhyw wybodaeth am y materion a bennir ym mharagraff (4) ac unrhyw asesiad ohonynt, ac
  - (c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r AEI yn yr holl amgylchiadau.
- (4) (4) Y materion a bennir at ddibenion paragraff (3)(b) yw—
  - (a) enwi neu ddisgrifio unrhyw randdeiliaid neu unrhyw bersonau eraill yr ymgynghorwyd â hwy o dan reoliad 4(2),
  - (b) enwi'r adrannau o boblogaeth Cymru, neu'r adrannau o rannau o boblogaeth Cymru, yr effeithir arnynt,
  - (c) unrhyw ganlyniadau bwriadol ac anfwriadol,
  - (d) unrhyw effeithiau cadarnhaol a negyddol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl,
  - (e) maint yr effeithiau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (d),
  - (f) sut i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn is-baragraff (d) neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol a nodwyd yn is-baragraff (c),
  - (g) sut i gynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol a nodwyd yn is-baragraff (d), ac
  - (h) unrhyw faterion y mae corff cyhoeddus yn dymuno eu cynnwys yn yr AEI, gan roi sylw i'r materion a nodir ym mharagraffau (5) ac (8).

Mae'n hanfodol sicrhau bod trefniadau ymgysylltu a chyfranogi ar waith wrth gynnal AEI, er mwyn sicrhau y caiff materion perthnasol eu nodi a'u hystyried mewn ffordd ystyrlon a thryloyw. Ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a phersonau cynrychioliadol eraill, dylai corff cyhoeddus ddatblygu allbwn sy'n ystyried effaith debygol cynnig ar iechyd y boblogaeth yr effeithir arni.

Wrth gynnal AEI, bydd corff cyhoeddus yn nodi rhai effeithiau sy'n fwriadol oherwydd testun AEI ac eraill sy'n ganlyniadau anfwriadol. Bydd angen i'r asesiad sicrhau y caiff effeithiau bwriadol ac anfwriadol eu nodi a'u hystyried drwy gydol proses yr AEI.

Mae iechyd corfforol ac iechyd meddwl yr un mor bwysig â'i gilydd wrth ystyried iechyd cyffredinol ac yn aml, gallant ddylanwadu ar ei gilydd. Dyna pam mae'n hanfodol ystyried y naill a'r llall wrth gwblhau AEI. Ochr yn ochr â dogfennu effeithiau cadarnhaol a negyddol pwnc AEI ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl, dylid hefyd anelu at nodi'r mesurau y gall corff cyhoeddus eu rhoi ar waith i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd ac i leihau'r effeithiau negyddol a nodwyd.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno bod yr allbynnau sy'n ofynnol fel gofyniad sylfaenol ar gyfer AEI o dan reoliad 4 yn briodol?

#### Rheoliad 4 parhad

(5) (a) Os bodlonir yr amod ym mharagraff (7), wrth gynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw faterion sydd o fewn y cam neu'r penderfyniad arfaethedig sy'n destun yr AEI, neu sy'n rhan o'r cam neu'r penderfyniad arfaethedig hwnnw, yn ymwneud â'r dyletswyddau datblygu cynaliadwy a llesiant.

(b) Os nodir unrhyw faterion y cyfeirir atynt ym mharagraff (5)(a), rhaid i'r corff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw un neu ragor o'r materion hynny yn berthnasol i'r AEI.

(6) O ran unrhyw gamau y mae'r corff cyhoeddus yn eu cymryd, neu unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud, ar ôl i AEI gael ei gynnal, nid yw paragraff (5) yn effeithio ar—

(a) dyletswydd y corff cyhoeddus o dan adran 109(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, na

(b) y ddyletswydd datblygu cynaliadwy, os bodlonir yr amod ym mharagraff (7).

(7) Mae'r corff cyhoeddus wedi ei restru yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(8) Wrth gynnal AEI, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw un neu ragor o'r materion canlynol yn berthnasol i'r AEI—

- (a) penderfynyddion ehangach iechyd, a
- (b) y ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd.

(9) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “dyletswydd datblygu cynaliadwy” yw dyletswydd y corff cyhoeddus i ymgymryd â datblygu cynaliadwy o fewn ystyr adrannau 2 i 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- (b) ystyr “penderfynyddion ehangach iechyd” yw'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a all effeithio ar iechyd pobl Cymru, neu ar iechyd rhai o bobl Cymru.
- (c) ystyr “ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd” yw unrhyw wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd rhwng adrannau gwahanol o boblogaeth Cymru, neu rhwng adrannau gwahanol o rannau o boblogaeth Cymru, sy'n debygol o gael eu hachosi gan wahaniaethau rhwng y grwpiau hynny ar sail—
  - (i) statws economaidd-gymdeithasol,
  - (ii) lleoliad daearyddol,
  - (iii) presenoldeb nodwedd warchoddedig, neu
  - (iv) unrhyw fater arall y mae corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn achosi gwahaniaeth mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd rhwng y grwpiau hynny y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol.

(10) At ddibenion paragraff (9)(c) ystyr “cyfleoedd iechyd” yw mynediad at gyfleoedd neu gyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd, y mae gan gorff cyhoeddus fuddiant ynddynt, sydd â diben neu effaith o hybu neu wella iechyd a llesiant.

(11) At ddibenion paragraff (10), nid yw “diben neu effaith o hybu neu wella iechyd a llesiant” yn ei gwneud yn ofynnol i hwn fod yn ddiben bwriadol.

### **Y ddyletswydd datblygu cynaliadwy a'r ddyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae dyletswydd ar y cyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ymgymryd â gwaith datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio datblygu cynaliadwy fel proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), sy'n anelu at gyflawni'r nodau llesiant (gweler adran 4).

Rhaid i gyrff cyhoeddus, pan fyddant yn cynnal gwaith datblygu cynaliadwy, osod a chyhoeddi amcanion llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny (adran 3). Rhaid cynllunio'r amcanion llesiant i sicrhau bod y corff cyhoeddus yn cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant (adran 4). Mae gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus o dan adran 6 weithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

- Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef: Ystyried yr hirdymor er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Gweithredu mewn ffordd integredig fel y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried pob un o'r nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio gydag eraill mewn modd cydweithredol er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir;
- Defnyddio adnoddau er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu.

Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig cyfle i feddwl mewn ffordd arloesol, gan fyfyrto ar y ffordd rydym yn byw ein bywydau, ac ar yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ein gwasanaethau cyhoeddus.

### **Y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar y cyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ddyletswydd hon yn nodi, wrth gynnal gwaith datblygu cynaliadwy, bod yn rhaid i gorff cyhoeddus, cyn belled ag bo'n rhesymol, sicrhau consensws neu gyfaddawd â'i undebau llafur cydnabyddedig neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill ei staff ar yr amcanion llesiant i'w pennu o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phenderfyniadau o natur strategol i'w gwneud am y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Daw'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol i rym ar 1 Ebrill 2024 yn unol â Gorchymyn Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023.

### **Y ddyletswydd datblygu cynaliadwy fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau drafft**

Mae'n bwysig nodi na fwriedir i'r Rheoliadau drafft greu "dyletswydd datblygu cynaliadwy" newydd. Mae'r term hwn yn derm a ddiffinnir o fewn y Rheoliadau drafft (rheoliad 4(9)(a)) i gyfeirio at adrannau 2 i 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw faterion o fewn y cam neu'r penderfyniad arfaethedig neu sy'n rhan o'r cam

neu'r penderfyniad arfaethedig y mae'r AEI yn berthnasol iddo yn ymwneud ag adrannau 2 i 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef yr egwyddor datblygu cynaliadwy, y ddyletswydd llesiant a'r darpariaethau cysylltiedig perthnasol. Os nodir unrhyw faterion, rhaid i'r corff cyhoeddus ystyried a yw unrhyw un neu ragor o'r materion hynny yn berthnasol i'r AEI.

Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn nodi nad yw hyn yn effeithio ar y gofyniad yn adran 109 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ystyried AEI, neu'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy (fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau drafft) ar gyfer unrhyw gamau neu benderfyniadau y bydd y corff cyhoeddus yn eu cymryd neu'n eu gwneud ar ôl cynnal AEI.

Ffigur 3: Y Pum Ffordd o Weithio sy'n rhan o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (Rhan 2 (a.5), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; addaswyd o Lywodraeth Cymru, 2015)



**LONG-TERM** - The importance of balancing short term needs with the need to safeguard the ability to meet long term needs, especially where things done to meet short term needs may have detrimental long term effect.



**PREVENTION** - how deploying resources to prevent problems occurring or getting worse may contribute to meeting the body's well-being objectives, or another body's objectives.



**INTEGRATION** -the need to take an integrated approach, by considering how the body's well-being objectives may impact upon each of the well-being goals, on their other objectives, or on the objectives of other public bodies.



**COLLABORATION** - how acting in collaboration with any other person (or how different parts of the body acting together) could assist the body to meet its well-being objectives, or assist another body to meet its objectives.



**INVOLVEMENT** - the importance of involving other persons with an interest in achieving the wellbeing goals and of ensuring those persons reflect the diversity of the area which the body serves.



## **Materion eraill y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus eu hystyried wrth gynnal AEI**

Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried a yw penderfynyddion ehangach iechyd a/neu ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd yn berthnasol i AEI ac os felly, dylid cynnwys y wybodaeth hon fel rhan o allbwn yr AEI.

### **Penderfynyddion ehangach iechyd**

Un o brif nodweddion AEI yw'r ffaith bod dealltwriaeth gymdeithasol neu gyfannol o iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn sail iddo, yn hytrach na dealltwriaeth sy'n canolbwyntio'n llwyr ar osgoi salwch ac afiechydon a'u trin. Dylid deall iechyd, yng nghyd-destun AEI, mewn ystyr eang, gan ddefnyddio penderfynyddion ehangach iechyd fel fframwaith i ystyried yr effeithiau yn ei erbyn.

Ystyr penderfynyddion ehangach iechyd yw'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a all effeithio ar iechyd pobl Cymru, neu ar iechyd rhai o bobl Cymru. Er mwyn egluro hyn, rydym wedi atgynhyrchu rhai enghreifftiau fel y gwelir isod:

- Ffactorau cymdeithasol gan gynnwys ein cyfleoedd o ran addysg a chyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny; ein tai; ein rhwydweithiau cymdeithasol; ble rydym yn byw ac i ba raddau y mae hynny'n hwyluso cyfleoedd i ymarfer corff, i sicrhau deiet da ac i greu cysylltiadau cymdeithasol.
- Ffactorau economaidd gan gynnwys diweithdra, incwm neu weithgarwch economaidd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.
- Ffactorau diwylliannol gan gynnwys ein hunaniaeth gymunedol, strwythur a rolau'r teulu, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.
- Ffactorau amgylcheddol gan gynnwys mynediad at fannau gwyrdd, tai, ansawdd aer a dŵr, mynediad at wasanaethau ac ansawdd y gwasanaethau hynny – gan gynnwys gwasanaethau meddygol, trafnidiaeth a materion fel bioamrywiaeth a hinsawdd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

### **Ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd**

Un o brif fanteision AEI yw ei botensial i gyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ac annhegwch iechyd.

Ar hyn o bryd, mae camau i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd ac annhegwch iechyd yn rhan o AEI drwy ystyried effeithiau prosiect neu gynnig ar iechyd a ph'un a gaiff yr effeithiau hyn ar iechyd eu teimlo i'r un graddau gan bawb, neu a ydynt yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol o bobl. Mae'r grwpiau hyn o bobl yn cynnwys grwpiau y gwahaniaethir rhyngddynt yn ôl:

- Statws economaidd-gymdeithasol – h.y. y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig neu'r rhai hynny sy'n byw mewn cartrefi sy'n ennill incwm islaw'r incwm cyfartalog, o gymharu â'r rhai hynny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig neu'r rhai hynny sy'n ennill incwm uwchlaw'r incwm cyfartalog;
- Lleoliad daearyddol – y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol a'r rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd sy'n fwy tebygol o wynebu risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd;

- Presenoldeb nodweddion gwarchoddedig – fel oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, mamolaeth, hil, iaith (gan gynnwys y Gymraeg).

O ystyried natur eang y sefydliadau a gwmpesir gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mae'n bosibl y bydd ffactorau unigryw sy'n berthnasol i annhegwch iechyd a allai effeithio ar eu grŵp poblogaeth yn gysylltiedig â rhai cyrff cyhoeddus, ac felly cynhwyswyd darpariaeth ychwanegol:

(iv) unrhyw fater arall y mae corff cyhoeddus yn ystyried ei fod yn achosi gwahaniaeth mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd rhwng y grwpiau hynny y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol.

Ni fwriedir i'r ddarpariaeth hon fod yn berthnasol i bob un sefyllfa bosibl, ond bwriedir iddi sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus yr awtonomi a'r hyblygrwydd i weithredu mewn ffordd sy'n eu galluogi i gymryd y camau mwyaf perthnasol ac angenrheidiol i ddiwallu anghenion eu grwpiau poblogaeth.

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno y dylid ystyried y ffactorau a nodir yn rheoliadau 4(8) i 4(11) o'r Rheoliadau drafft wrth gynnal AEI? Er hwylustod, mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn;

- (a) penderfynyddion ehangach iechyd, a
- (b) y ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd.

Cwestiwn 8 – Oes unrhyw broblemau posibl y gallwch eu rhagweld o ran sut y bydd angen cynnal AEI o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau drafft?

## **Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Sefydlwyd Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) yn 2004 er mwyn helpu i ddatblygu arferion ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd yng Nghymru. Mae'r uned yn rhan o Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer "Buddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant" yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae adran 108(4) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn rhoi pŵer i Weinidogion gynnwys darpariaeth mewn rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru roi cymorth i gorff cyhoeddus arall sy'n cynnal AEI. Mae adran 108(5) yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y caiff y cymorth ei roi.

**Y ddyletswydd i lunio canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus**

Rydym yn cydnabod y gwaith a wnaed gan dîm WHIASU yn lechyd Cyhoeddus Cymru ers ei sefydlu a'r ddealltwriaeth o ran gwella arferion AEIau, a'r arweinyddiaeth ar gyflawni hynny, a gydnabuwyd yn rhyngwladol. Rydym yn gwerthfawrogi safon yr adnoddau sydd ar gael ar wefan WHIASU ac, o ystyried profiad y tîm, credwn mai'r tîm hwnnw fyddai yn y sefyllfa orau i lunio canllawiau anstatudol i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall eu dyletswyddau o dan y Rheoliadau drafft. Bydd angen cyhoeddi'r canllawiau hyn ac er na fydd yn orfodol i gyrff cyhoeddus ystyried y canllawiau, rydym yn gobeithio y bydd y ddyletswydd hon yn helpu cyrff cyhoeddus i wneud y canlynol:

- deall o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI o dan y Rheoliadau drafft;
- deall sut mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gynnal AEI o dan y Rheoliadau drafft.

Er ein bod o'r farn y bydd y canllawiau a gyhoeddir gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn allweddol i helpu cyrff cyhoeddus i ddeall sut y gallant sicrhau bod eu AEI yn cydymffurfio â'r Rheoliadau drafft, yn y pen draw, bydd angen i gyrff cyhoeddus fodloni eu hunain ynghylch a oes angen AEI o dan amgylchiad penodol a sicrhau bod yr AEI hwnnw wedi'i gynnal yn unol â'r Rheoliadau drafft.

Cwestiwn 9 – I ba raddau rydych chi'n cytuno mai cyhoeddi canllawiau yw'r ffordd orau i lechyd Cyhoeddus Cymru helpu cyrff cyhoeddus i gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar lechyd?

Cwestiwn 10 – Os mai “cytuno” oedd eich ateb i gwestiwn 9, pa wybodaeth fyddai fwyaf buddiol i'w chynnwys fel rhan o'r canllawiau ategol?

## **Cyhoeddi Aseiad o'r Effaith ar lechyd**

Mae'r Rheoliadau drafft yn darparu y dylai cyrff cyhoeddus allu cyhoeddi eu AEI yn y ffordd sydd fwyaf priodol iddynt. Felly, cynigir hyblygrwydd i'w gyhoeddi naill ai fel rhan o aseiad effaith integredig (h.y. wedi'i gynnwys fel adran benodol o fewn aseiad effaith integredig) neu fel AEI unigol ar wahân.

Mae'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r AEI gael ei gyhoeddi ar wefan y corff cyhoeddus (neu mewn ffordd amgen briodol os nad oes ganddo wefan) ac i sicrhau ei fod ar gael cyhyd ag y bo'r cam/penderfyniad arfaethedig yn parhau'n berthnasol. Ystyrir bod y darpariaethau hyn yn rhoi llai o brosesau i'r corff cyhoeddus gyflawni'r rhwymedigaeth a'u bod yn sicrhau y gall rhanddeiliaid â diddordeb ddod o hyd i'r aseiad mewn lleoliad amlwg pan fydd angen iddynt ei weld.

Mae angen i'r AEI gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu unwaith y bydd y broses yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft wedi'i chwblhau er mwyn adlewyrchu'r realiti y gall AEI fod yn broses iteraid.

Wrth gyhoeddi AEI, rhaid hefyd gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol arall fel y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a deddfwriaeth diogelu data.

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno bod yr opsiwn i gyhoeddi AEI yn y ffordd fwyaf priodol i'r corff cyhoeddus yn rhoi digon o hyblygrwydd i gyrrff cyhoeddus gynnal yr asesiad yn y ffordd fwyaf priodol?

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r gofyniad i gyhoeddi'r AEI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol?

Cwestiwn 13 – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ychwanegol o ran sut, ble a phryd y dylid cyhoeddi AEIau?

### **Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd fel adnodd polisi gwerthfawr**

Mae cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn darparu fframwaith systematig ond hyblyg ac ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisiâu neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut y gallent, yn eu tro, effeithio ar iechyd pobl. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn gweithio orau pan fyddant yn cynnwys y bobl a'r sefydliadau a all gyfrannu gwahanol fathau o wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol. Wedyn, defnyddir yr wybodaeth i gynnwys mesurau i greu cymaint o gyfleoedd â phosibl mewn perthynas ag iechyd ac i leihau unrhyw risgiau.

Er mwyn manteisio'n llawn ar y buddiannau, dylid ystyried Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel adnodd polisi parhaus y gellir ychwanegu ato a'i ddiweddarw wrth barhau i ddatblygu polisiâu a'u rhoi ar waith. Dim ond dechrau'r daith yw'r asesiad ei hun a bydd yn gweithredu fel adnodd allweddol er mwyn nodi effeithiau y gellir ond eu rheoli, eu gwaredu neu eu lliniaru o bosibl drwy roi cam neu benderfyniad penodol ar waith. Yn yr un modd, gall fod yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer gwerthuso a ddylid cymryd cam neu wneud penderfyniad yn y lle cyntaf.

Cwestiwn 14 – Yn ogystal â'r canllawiau, pa ddulliau eraill a chymorth parhaus a allai helpu cyrrff cyhoeddus i wireddu manteision AEIau?

## Adran 4 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Ydych chi'n ymateb fel unigolyn, neu ar ran sefydliad? (dewiswch un opsiwn yn unig)

- Unigolyn
- Ar ran sefydliad
- Arall, nodwch

Cwestiwn 1. Yn seiliedig ar y darpariaethau a geir yn Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i ba raddau rydych yn cytuno bod y Rheoliadau Drafft yn ymdrin â'r rhwymedigaeth i'w gwneud yn orfodol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yng Nghymru ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn:

Cwestiwn 2. Bydd yn ofynnol i'r cyrff a restrir o dan adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 lunio AElau yn unol â'r Rheoliadau drafft. Ydych chi'n cytuno y dylai'r rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 110 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 adlewyrchu'r cyrff hynny a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol, gan gynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus ychwanegol a gynigir yn y dyfodol a gaiff eu hychwanegu at adran 6?

- Cytuno
- Anghytuno

Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn:

Cwestiwn 3. Ydych chi'n cytuno â bwriad y polisi i'w gwneud yn orfodol i'r cyrff cyhoeddus a restrir ddefnyddio AEI pan fyddant yn cymryd cam neu'n gwneud penderfyniad o natur strategol?

- Cytuno
- Anghytuno

Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn:

Cwestiwn 4. Oes unrhyw amgylchiadau ychwanegol lle y credwch y dylai fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal AEI gorfodol?

Cwestiwn 5. Oes unrhyw amgylchiadau ychwanegol lle y credwch y dylai cyrff cyhoeddus gael eu heithrio rhag cydymffurfio â'r Rheoliadau drafft?

Cwestiwn 6. Ydych chi'n cytuno bod yr allbynnau sy'n ofynnol fel gofyniad sylfaenol ar gyfer AEI o dan reoliad 4 yn briodol?

- Cytuno
- Anghytuno

Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn:

Cwestiwn 7. Ydych chi'n cytuno y dylid ystyried y ffactorau a nodir yn rheoliadau 4(8) i 4(11) o'r Rheoliadau drafft wrth gynnal AEI? Er hwylustod, mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn;

- (a) penderfynyddion ehangach iechyd, a
- (b) y ffactorau sy'n berthnasol i annhegwch iechyd.

Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn:

Cwestiwn 8. Oes unrhyw broblemau posibl y gallwch eu rhagweld o ran sut y bydd angen cynnal AEI o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau drafft?

Cwestiwn 9. I ba raddau rydych chi'n cytuno mai cyhoeddi canllawiau yw'r ffordd orau i lechyd Cyhoeddus Cymru helpu cyrff cyhoeddus i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar lechyd?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno

Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn:

Cwestiwn 10. Os mai "cytuno" oedd eich ateb i gwestiwn 9, pa wybodaeth fyddai fwyaf buddiol i'w chynnwys fel rhan o'r canllawiau ategol?

Cwestiwn 11. Ydych chi'n cytuno bod yr opsiwn i gyhoeddi AEI yn y ffordd fwyaf priodol i'r corff cyhoeddus yn rhoi digon o hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus gynnal yr asesiad yn y ffordd fwyaf priodol?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno

Esboniwch pam rydych wedi dewis yr ateb hwn:

Cwestiwn 12. Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau â'r gofyniad i gyhoeddi allbwn yr AEI cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol?

Cwestiwn 13. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ychwanegol o ran sut, ble a phryd y dylid cyhoeddi AEIau?

Cwestiwn 14. Yn ogystal â'r canllawiau, pa ddulliau eraill a chymorth parhaus a allai helpu gyrff cyhoeddus i wireddu manteision AEIau?

Cwestiwn 15. Bydd y Rheoliadau drafft yn effeithio ar y gyrff cyhoeddus a restrir mewn ffordd gwahanol. Er mwyn inni feithrin gwell dealltwriaeth o'r effeithiau hyn, allwch chi ddweud wrthym pa gostau a manteision, os o gwbl, y rhagwelwch pan ddaw'r Rheoliadau drafft i rym?

Cwestiwn 16. Ydych chi'n credu y gallai'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon gael effaith ar y canlynol:

- Y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig



- Grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol
- Plant a phobl ifanc
- Cydraddoldeb mewn perthynas ag; – Oedran – Rhyw – Hil – Crefydd – Cyfeiriadedd rhywiol – Beichiogrwydd a mamolaeth – Anabledd – Ailbennu rhywedd – Priodas/partneriaeth sifil

Cwestiwn 17. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r ymgynghoriad yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 18. Oes unrhyw grwpiau eraill mewn cymdeithas na chyfeiriwyd atynt y byddai'r cynigion yn cael effaith arnynt yn eich barn chi?

Cwestiwn 19. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw adborth ychwanegol ar y Rheoliadau drafft nad ydym wedi ymdrin ag ef yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn  ddiennw, ticiwch yma.